Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dealltwriaeth: Cynllun Cyflawni Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028

## Gweithgarwch Blwyddyn Un

Diweddariad Blynyddol 2025-2026 –
Cynnydd ar y Camau Gweithredu

llyw.cymru

**Mae'r tablau canlynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch yn erbyn pob cam gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Yn erbyn pob cam gweithredu, rydym wedi darparu asesiad 'golau traffig' o'r cynnydd a wnaed, ynghyd â'r camau nesaf arfaethedig ar gyfer pob un. At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir cynnydd fel a ganlyn:**

**Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn ac yn gwneud cynnydd fel y cynlluniwyd.

**Oren:** Mae materion neu risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu rheoli'n weithredol, ond gallai hynny arwain at fân oedi o ran yr amserlenni a gynlluniwyd.

**Coch:** Nid yw'r gwaith ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlenni a gynlluniwyd. Mae angen rhagor o waith i liniaru unrhyw oedi neu i ailddiffinio gweithgareddau ac amserlenni.

## Amcan 1: Gwrando a Dysgu

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deall hunan-niweidio yn well (gan gynnwys ymgais i gyflawni hunanladdiad).** | Mapio ffynonellau data hunan-niweidio yng Nghymru. | Diwedd blwyddyn un. | Mae cynnydd wedi'i wneud o ran mapio ffynonellau data hunan-niweidio yng Nghymru. Penodwyd y Swyddog Ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghanolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Ymchwil i Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed (y Ganolfan Genedlaethol, Prifysgol Abertawe) ym mis Tachwedd 2025. | OREN | Bydd y Swyddog Ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cwblhau dadansoddiad o'r adnoddau data wedi'u mapio, a disgwylir i'r dadansoddiad fod yn barod erbyn mis Chwefror 2027. |
| | Sefydlu protocol ar gyfer nodi a chofnodi digwyddiadau hunan-niweidio mewn modd cyson drwy godio a hyfforddiant.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys gwahaniaethu rhwng hunan-niweidio ac ymdrechion i gyflawni hunanladdiad. | Diwedd blwyddyn tri. | Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto. | OREN | Bydd Llywodraeth Cymru a thîm Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SSHP) Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cyfarfod er mwyn egluro disgwyliadau ac allbynnau. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55015, ISBN digidol 978-1-80853-238-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deall hunan-niweidio yn well (gan gynnwys ymgais i gyflawni hunanladdiad). (Parhad)** | Adolygu prosesau ar gyfer coladu a dehongli data a thystiolaeth yn ymwneud â hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae grŵp cynghori Data, Tystiolaeth a Gwyliadwriaeth wedi'i sefydlu gan y Ganolfan Genedlaethol, sy'n dwyn ynghyd academyddion, arweinwyr polisi, a phartneriaid cyflenwi allweddol er mwyn coladu data a thystiolaeth yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio, hwyluso prosesau cyfnewid gwybodaeth a sicrhau trosi ystyrlon mewn polisi ac ymarfer. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal bob chwarter yn 2026.<br><br>Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyd-gynnal y Rhwydwaith Tystiolaeth Ymchwil Atal Hunanladdiad, Hunan-niweidio, Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r Rhwydwaith yn dwyn ynghyd bobl sydd â phrofiad bywyd, ymarferwyr, academyddion a phartneriaid er mwyn rhannu dysgu, datblygu gwybodaeth, a chymryd camau gweithredu cysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | GWYRDD | Bydd cyfarfodydd Data, Tystiolaeth a Gwyliadwriaeth yn parhau i gael eu cynnal bob chwarter.<br><br>Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn hyrwyddo'r Rhwydwaith Tystiolaeth Ymchwil Atal Hunanladdiad, Hunan-niweidio, Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol i bob ymchwilydd (gan gynnwys ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa) er mwyn gwella'r broses o feithrin gallu yn y maes.<br><br>Bydd y Rhwydwaith Ymchwil yn parhau i gyfarfod bob chwe mis.<br><br>Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn parhau i weithio gyda Decipher (Prifysgol Caerdydd) er mwyn cynnwys cwestiynau hunan-niweidio yn arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn ystod Hydref 2027. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deall hunanladdiad yn well.** | Mapio sut y gellir casglu data ychwanegol ynglŷn â'r canlynol a'u cynnwys o fewn Gwyliadwriaeth Amser Real Hunanladdiad Tybiedig (RTSSS):<br>• Ethnigrwydd<br>• Hunaniaeth rhywedd<br>• Y rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad<br>• Yr iaith a siaredir/ a ffefrir<br>• Statws mewnfudo<br>• Anabledd dysgu. | Diwedd blwyddyn un. | **Ethnigrwydd, hunaniaeth rhywedd, yr iaith a siaredir/a ffefrir, statws mewnfudo:**<br>• Nid yw'r eitemau data hyn ar gael i RTSSS (mae data ar ethnigrwydd a hunaniaeth rhywedd yn cael ei gasglu drwy'r Heddlu ond nid yw ansawdd y data yn hysbys).<br>• Gallai fod ar gael drwy gronfa ddata SAIL felly gellid archwilio ymhellach pan fydd data RTSSS ar gael yn SAIL a phan fydd trefniadau llywodraethu ar waith.<br>• Bydd angen cadarnhad gan heddluoedd bod modd defnyddio'r data at ddibenion ymchwil. Mae angen diwygio cytundebau rhannu data gwreiddiol.<br>**Y rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad:**<br>• Mae hyn yn destun ystyriaeth o hyd.<br>**Anableddau dysgu:**<br>• Mae data ar Anableddau Dysgu eisoes yn cael ei gasglu, ond oherwydd y niferoedd bach mae'n bosibl na fydd yn briodol adrodd arno mewn dogfen gyhoeddus, ond byddai'n cael ei gynnwys yn adroddiadau'r Grŵp Gweithredol Misol (nad ydynt yn gyhoeddus). | OREN | **Ar gyfer ethnigrwydd, hunaniaeth rhywedd, yr iaith a siaredir/a ffefrir, statws mewnfudo**:<br>• Gofyn am y cymeradwyaeth angenrheidiol er mwyn gallu defnyddio data RTSSS at ddibenion ymchwil a chynllunio i ddata RTSSS gael ei gynnwys yn SAIL. Amserlen 12-18 mis.<br>• Unwaith y bydd data RTSSS wedi'i gynnwys yn SAIL, efallai y bydd modd archwilio'r meysydd hyn ymhellach.<br>**Y rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad:**<br>• Parhau i archwilio. |
| | Lle bo'n bosibl, cynnwys elfennau data newydd o fewn yr adroddiad RTSSS. | Diwedd blwyddyn tri. | Adrodd data am hunanladdiadau tybiedig a wneir drwy RTSSS. Mae elfennau data newydd yn debygol o fod ar gael drwy SAIL fel rhan o brosiectau ymchwil yn unig ac efallai na fyddant ar gael at ddibenion gwyliadwriaeth. | OREN | Efallai na fydd elfennau data newydd ar gael ar gyfer adrodd RTSSS o wyliadwriaeth hunanladdiadau tybiedig, oni bai bod mwy o ffynonellau data amser real ar gael (e.e. data gofal sylfaenol). |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Deall hunanladdiad yn well. (Parhad)** | Sefydlu seilwaith ar gyfer cysylltu ffynonellau data (e.e. RTSSS a SAIL), a fydd yn darparu data mwy cynhwysfawr yn ymwneud â marwolaethau drwy hunanladdiad. | Diwedd blwyddyn dau. | Mae myfyriwr PhD wedi'i benodi i gefnogi'r gwaith hwn, gan weithio ar draws y Ganolfan Genedlaethol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. | GWYRDD | Egluro'r broses lywodraethiant a'r amserlenni sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth. |
| | Archwilio'r posibilrwydd y gallai pob tîm Iechyd Meddwl mewn Byrddau Iechyd roi gwybod i RTSSS am hunanladdiadau tybiedig ymhlith cleifion mewnol neu rai a ryddhawyd yn ddiweddar. | Diwedd blwyddyn dau. | Archwiliwyd a yw data ar gleifion mewnol neu bobl a gafodd eu rhyddhau yn ddiweddar, gyda lefel y wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer RTSSS, ar gael o ffynhonnell ganolog. | GWYRDD | Iechyd Cyhoeddus Cymru i archwilio hyn yn uniongyrchol gyda byrddau iechyd. |
| **Gwella prosesau ar gyfer rhannu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth i lywio polisïau a gwasanaethau.** | Sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol a fydd yn pennu'r cydberthnasoedd â strwythurau/sefydliadau eraill. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol wedi'i gwblhau.<br><br>Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi sefydlu grŵp cynghori Data, Tystiolaeth a Gwyliadwriaeth.<br><br>Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyd-gynnal y Rhwydwaith Tystiolaeth Ymchwil Atal Hunanladdiad, Hunan-niweidio, Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol a sefydlwyd yn ddiweddar. | GWYRDD | Bydd cyfarfodydd Data, Tystiolaeth a Gwyliadwriaeth yn parhau i gael eu cynnal bob chwarter.<br><br>Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn hyrwyddo'r Rhwydwaith Tystiolaeth Ymchwil Atal Hunanladdiad, Hunan-niweidio, Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol i bob ymchwilydd (gan gynnwys ymchwilwyr gyrfa gynnar a chanol gyrfa) er mwyn gwella'r broses o feithrin gallu yn y maes.<br><br>Bydd y Rhwydwaith Ymchwil yn parhau i gyfarfod bob chwe mis. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella prosesau ar gyfer rhannu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth i lywio polisïau a gwasanaethau. (Parhad)** | Sefydlu cydberthynas ffurfiol y Ganolfan Genedlaethol fel corff cynghori ar gyfer Llywodraeth Cymru. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol wedi'i gwblhau.<br>Cyflwynodd y Ganolfan Genedlaethol ei hadroddiad blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru (Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio; tîm SPSH) ym mis Mawrth 2026. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o ddata ar epidemioleg hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, negeseuon a chyngor allweddol, sesiynau briffio polisi a diweddariad ar berfformiad y Ganolfan Genedlaethol yn erbyn ei chyflawniadau penodol yn ystod blwyddyn un Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025–2028. | GWYRDD | Bydd Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru yn trefnu cyfarfod â'r i drafod blaenoriaethau ymchwil sy'n berthnasol i bolisi ar gyfer Blwyddyn 2 y strategaeth.<br>Bydd y Tîm yn trafod y broses ddrafftio ac adolygu ar gyfer yr adroddiad blynyddol gyda'r Ganolfan Genedlaethol. |
| | Cyhoeddi adroddiad terfynu yn amlinellu'r cyflawniadau yn erbyn Siarad â fi 2, a Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2015 i 2022 er mwyn gosod y llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth newydd. | Diwedd blwyddyn un. | Cyhoeddwyd. Gweler www.llyw.cymru/strategaethau-law-yn-llaw-iechyd-meddwl-siarad-fi-2-adroddiad-terfynu | GWYRDD | |
| | Datblygu fframwaith a gweithdrefn adrodd sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Strategaeth a Bwrdd Sicrwydd y Gweinidogion. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno gyda'r Bwrdd Gweinidogol. Mae Grŵp Gweithredu wedi'i sefydlu. Mae fframwaith monitro ac adrodd yn cael ei ddatblygu. | OREN | Bydd Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredu ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cael eu diweddaru a bydd gwaith i ddatblygu'r fframwaith monitro ac adrodd yn parhau. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella prosesau ar gyfer rhannu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth i lywio polisïau a gwasanaethau. (Parhad)** | Creu a chyhoeddi fframwaith canlyniadau. | Diwedd blwyddyn un. | Cyhoeddwyd. Gweler www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-04/dealltwriaeth-strategaeth-atal-hunanladdiad-hunan-niweidio.pdf | GWYRDD | Bydd y fframwaith canlyniadau yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025–2035. Penodwyd Swyddog Ymchwil i'r Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio ym mis Chwefror 2026 er mwyn datblygu'r gwaith hwn. |
| | Datblygu Fframwaith Profiad Bywyd. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio oddi mewn i Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi ymgynghori ar ddatblygu fframwaith profiad bywyd gyda phobl sydd â phrofiad bywyd drwy gynnal cyfres o weithdai.<br>Mae Rheolwr Prosiect newydd wedi'i benodi i gryfhau a datblygu'r gwaith hwn yn ymwneud â phrofiad bywyd.<br>Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu â gweithgarwch ymgysylltu ehangach ar draws y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, y Rhaglen Diogelwch Cleifion, Gofal mewn Argyfwng, a pholisi interim taliadau a thaliadau cydnabyddiaeth Perfformiad a Gwella GIG Cymru er mwyn sicrhau dull gweithredu cysylltiedig a chyson. | OREN | Bydd drafft o'r Fframwaith ar gael yn 2026-27 Bl 2. |
| | Datblygu Cymunedau Ymarfer. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi hwyluso'r gwaith o sefydlu Cymuned Ymarfer hunangynhaliol er mwyn i Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach gefnogi llesiant myfyrwyr a staff ac ymatebion i ddigwyddiadau hunanladdiad, gan gydweithio â Medr. | GWYRDD | Bydd dulliau tebyg yn cael eu mabwysiadu ar gyfer gweithluoedd eraill, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau sydd â ffactorau cysylltiedig sy'n cyd-ddigwydd/croestorri fel cyfiawnder troseddol/trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)/defnyddio sylweddau.<br>Bydd Cod Ymarfer ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd yn cael ei ddatblygu ym Mlwyddyn 2. |

# Amcan 2: Atal

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywio a dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru.** | Cwmpasu cyfleoedd i gynnwys ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio mewn Hyfforddiant Staff Llywodraeth Cymru. | Diwedd blwyddyn un. | Canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad fel cam cyntaf oherwydd argaeledd adnoddau. Mae rhestr chwarae adnoddau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru wedi'i datblygu sy'n cynnwys e-ddysgu ac adnoddau gwybodaeth ehangach. Nid yw'r rhestr chwarae wedi'i chyhoeddi eto.<br>Dechreuodd gwaith cwmpasu yn ymwneud â chyfleoedd Dysgu dros Ginio mewn perthynas â ffactorau risg a sgyrsiau cefnogol ym mlwyddyn un.<br>Cyngor ar Safon BSI 'Hunanladdiad a'r gweithle – Ymyrraeth, atal a chymorth i bobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad' (BS 30480:2025 yn Adroddiad Blynyddol y Ganolfan Genedlaethol a dderbyniwyd. | GWYRDD | Mae'r gwaith o gyhoeddi a monitro'r rhestr chwarae wedi'i gwblhau.<br>Cyfarfod i drafod ymwybyddiaeth o hunanladdiad gyda'r tîm AD cynghori ar achosion a Chynghreiriaid Iechyd Meddwl.<br>Cynnal a hyrwyddo digwyddiadau Dysgu dros Ginio ar gyfer staff sydd â diddordeb.<br>Gwaith cynnydd yn ymwneud â hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer ymwybyddiaeth o hunan-niweidio.<br>Trafodaethau mewnol ynglŷn â'r Safon BSI.<br>Mewnbwn i ddrafftio Strategaeth Llesiant staff Llywodraeth Cymru. |
| | Cwmpasu'r hyfforddiant presennol ar gyfer staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd, adolygu unrhyw fylchau a datblygu hyfforddiant pwrpasol lle bo angen. | Diwedd blwyddyn un. | Parhaus – mae nifer o ddulliau ymgysylltu ar waith i gasglu a choladu'r wybodaeth hon. | OREN | Parhau i gasglu'r wybodaeth a gweithio gyda chydweithwyr er mwyn eu datblygu neu eu cyfeirio at hyfforddiant pwrpasol os oes angen.<br>Mae gwaith archwilio wedi'i dargedu gyda Taliadau Gwledig Cymru. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywio a dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. (Parhad)** | Sefydlu prosesau ar gyfer cynnwys ystyriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio mewn asesiadau cyrff cyhoeddus o effeithiau iechyd meddwl drwy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. | Diwedd blwyddyn un. | Mae Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi'u cyhoeddi bellach. | OREN | Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn cynhyrchu canllawiau ychwanegol i ddarparu mwy o gyfarwyddyd ynglŷn â sut i ystyried hunanladdiad a hunan-niweidio. |
| **Hyrwyddo adroddiadau defnyddiol yn y cyfryngau a chyfyngu ar fynediad at gamwybodaeth.** | Adolygu canllawiau'r cyfryngau ar gyfer adrodd am hunanladdiad a hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal gyda'r Samariaid yng Nghymru ynglŷn â'r broses o fonitro adroddiadau am hunanladdiad a hunan-niweidio yn y cyfryngau yng Nghymru, yn unol â chanllawiau'r Samariaid ar y cyfryngau. | GWYRDD | Bydd adolygiad o'r canllawiau presennol yn cael ei gynnal er mwyn penderfynu pa waith arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael â phrosesau adrodd sy'n achosi problemau.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi cyfleoedd i ymgysylltu â Gweithgor Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd Cymru er mwyn hyrwyddo prosesau adrodd mwy diogel am hunanladdiad a rôl y cyfryngau wrth atal hunanladdiad. |
| | Datblygu protocol uwchgyfeirio ar gyfer pobl sy'n pryderu am sut mae'r cyfryngau yn adrodd am hunanladdiad a hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae proses uwchgyfeirio wedi'i chytuno mewn egwyddor gyda'r Samariaid a'u Tîm Cynghori ar y Cyfryngau. | GWYRDD | Y camau nesaf yw cadarnhau'r manylion ar gyfer 'rheoli disgwyliadau' y broses cyn mynd ati i'w rhannu â chydweithwyr/partneriaid allweddol perthnasol. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella ein hymatebion drwy wreiddio protocolau atal hunanladdiad a chryfhau dulliau cyflawni.** | Sefydlu prosesau arweinyddiaeth a nodwyd yn y sector cyhoeddus ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Genedlaethol wedi cyfarfod ag arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gyflwyno'r Strategaeth Genedlaethol a'r angen i gryfhau cysylltiadau rhwng lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a helpu i roi'r strategaeth newydd ar waith. | GWYRDD | Cyswllt parhaus â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn ymwreiddio atal hunanladdiad a hunan-niweidio mewn strategaethau a swyddogaethau partneriaethau rhanbarthol. |
| | Datblygu protocolau cenedlaethol ar gyfer ymateb i leoliadau penodol neu fannau cyhoeddus sy'n peri pryder o safbwynt hunanladdiad a hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r drafft terfynol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad. | OREN | Sylwadau terfynol i'w cynnwys mewn drafftiau gyda'r nod tebygol o'u cyhoeddi yn 2026-27 Bl 2, o ystyried yr amser sydd ei angen i baratoi. |
| | Datblygu protocolau cenedlaethol ar gyfer ymateb i ddulliau marwol sy'n dod i'r amlwg o hunanladdiad a hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn un. | Mae tîm y Rhaglen Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi datblygu SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad) yn ymwneud â phroses ar gyfer dulliau marwol sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae'r gwaith o ddatblygu protocolau Cymru wedi cael ei ohirio er mwyn cynyddu dealltwriaeth o sefyllfa a chynnydd y DU yn y maes hwn, ac felly'r effaith ar Gymru.<br><br>Mae ymgysylltu parhaus drwy Ford Gron y DU ac Iwerddon yn parhau. | OREN | Bydd Llywodraeth Cymru yn dod yn aelod o'r grŵp UK Concerning Suicide Methods sy'n cynnull adrannau canolog (nad ydynt wedi'u datganoli) o'r Llywodraeth sy'n cyfrannu at reoli risgiau yn ymwneud â dulliau sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) wedi ymrwymo i gyfarfod yn fwy rheolaidd er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar y ddwy wlad a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r arferion gorau. |

## Amcan 3: Grymuso

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella pa mor hygyrch yw gwybodaeth ac adnoddau cyffredinol yn ymwneud â chymorth a chodi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio.** | Mapio'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a chyfleoedd i wella hygyrchedd. | Parhaus. | Mae Rheolwr Prosiect newydd wedi'i benodi a fydd yn arwain ar waith ymarferion mapio Perfformiad a Gwella GIG Cymru.<br>Mae'r broses gychwynnol o fapio adnoddau ar draws rhanbarthau wedi dechrau. | GWYRDD | Llunio drafft cyntaf o adroddiad mapio ar gyfer 2026-27 Bl 2. |
| | Datblygu a chynnal cynhyrchion hyfforddiant a chymorth ar gyfer lleoliadau sy'n hygyrch i bawb a sicrhau bod pobl yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth er mwyn eu galluogi i fynd ati'n hyderus i gynnig cymorth i bobl a'u cyfeirio at wasanaethau. | Parhaus. | Parhaus – yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith mapio uchod. | GWYRDD | Dadansoddi canlyniad y broses o fapio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn penderfynu a oes angen y cam gweithredu hwn o hyd neu a oes angen ei ddiwygio. Er enghraifft, os yw adnoddau yn ymwneud â chymorth ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ar gael i'r cyhoedd ac yn hygyrch ledled Cymru, byddai angen hyrwyddo'r adnoddau hyn fel cam gweithredu. |
| | Datblygu Modiwl Ymwybyddiaeth Sylfaenol dwyieithog yn ymwneud â Hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r Modiwl Ymwybyddiaeth Sylfaenol wedi'i ddatblygu drwy grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth dan gadeiryddiaeth yr Athro Ann John ac mae'n cynnwys Straen Trawmatig Cymru ac Amser i Newid Cymru.<br>Mae pobl â phrofiad bywyd wedi cael eu cynnwys drwy gydol y gwaith. Daeth yr ymgynghoriad ar y modiwl i ben ddiwedd mis Mawrth 2026, ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. | OREN | Disgwylir lanlwythiad digidol yn 2026-27 Bl 2. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella pa mor hygyrch yw gwybodaeth ac adnoddau cyffredinol yn ymwneud â chymorth a chodi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio. (Parhad)** | Sicrhau bod modiwlau sylfaenol yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o Hunanladdiad a Hunan-niweidio ar gael, eu bod yn cael eu hyrwyddo ar gyfer mynediad cyffredinol a'u bod yn addas i'r cyhoedd, gan ystyried hygyrchedd, darpariaeth iaith ac anghenion penodol eraill. | Diwedd blwyddyn un. | Gofynion hygyrchedd a nodir mewn deddfwriaeth. Nid yw'r gwaith hyd yma wedi'i fwriadu i'r cyhoedd felly mae angen mwy o drafodaethau am y gynulleidfa.<br><br>Mae hygyrchedd ac elfennau rhyngweithiol y modiwlau Ymwybyddiaeth Sylfaenol yn cael eu datblygu gyda'r cyflenwyr digidol. | OREN | Mae'r modiwl Ymwybyddiaeth Sylfaenol (hunanladdiad) wedi'i ddiweddaru a disgwylir iddo fod ar gael cyn bo hir. Bydd y modiwl Hunan-niweidio yn cael ei ddatblygu i'w lanlwytho yn 2026-27 Bl 2. Bydd y rhain wedyn yn cael eu hyrwyddo'n weithredol ar bob sianel gyfathrebu. |
| | Cwmpasu cyfleoedd i gynyddu sgiliau gwrando a thosturi'r cyhoedd drwy hyfforddiant ac adnoddau. | Diwedd blwyddyn dau. | Heb ddechrau eto. | OREN | Mae angen rhagor o gyngor ar sut i gael cydbwysedd rhwng risg a chyfle sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth am hunanladdiad a hunan-niweidio. |
| | Hyrwyddo deunyddiau cymorth a chynllunio diogelwch sy'n gyson o ran canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hygyrch yn gyffredinol. | Parhaus. | Manyleb gwasanaeth gyda chaffael. Yn cysylltu â gwaith y Rhaglen Diogelwch Cleifion ar gynllunio diogelwch gan ganolbwyntio ar y claf.<br><br>Nodi cyflenwr digidol a dechrau datblygiad digidol. Gohiriwyd y gweithgarwch hwn o fis Mawrth tan ddiwedd y cyfnod cyn-etholiadol. | OREN | Gohiriwyd y gweithgarwch hwn o fis Mawrth tan ddiwedd y cyfnod cyn-etholiadol. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio.** | Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, gan gynnwys cwmpasu'r potensial i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol ddwyieithog yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru. | Diwedd blwyddyn tri. | Cyngor a dderbyniwyd gan y Ganolfan Genedlaethol fel rhan o'u hadroddiad blynyddol cyntaf i lywio'r camau nesaf.<br>Mae'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer staff mewnol Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau. | GWYRDD | Cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyhoeddus i atal hunanladdiad, gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo diwylliant gwrando/sgiliau gwrando.<br>Datblygu drafft cychwynnol o strategaeth gyfathrebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd. |
| | Nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o hunan-niweidio a hunanladdiad mewn lleoliadau preswyl a chymdeithasol. | Parhaus. | Mae'r gwaith hwn ar y cam cwmpasu. | OREN | Rhagor o waith cwmpasu i ddiffinio lleoliadau preswyl a chymdeithasol yn fwy manwl. |

## Amcan 4: Cefnogi

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yn achos pobl sy'n ymgyflwyno fel rhai sy'n synio am hunanladdiad a hunan-niweidio neu sy'n ceisio cymorth ar gyfer meddyliau o'r fath, gwella mynediad at wasanaethau ledled Cymru a gwella'r modd y darperir y gwasanaethau hynny.** | Sicrhau bod y Rhaglen Diogelwch Cleifion yn diwallu anghenion y rhai sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niweidio, gan ganolbwyntio ar weithgareddau fel:<br>• Canllawiau ar gyfer rhyddhau cleifion mewnol iechyd meddwl.<br>• Creu cynlluniau diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hygyrch yn gyffredinol.<br>• Adolygu'r modd y llunnir risgiau ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol.<br>• Lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio clymau. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae polisi, ymarfer a hyfforddiant gwrth-glymau wedi'u cynhyrchu a'u lledaenu.<br>Mae safonau rhyddhau diogel wedi'u cynhyrchu a'u lledaenu.<br>Mae Cymuned Ymarfer ar gyfer cynllunio diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i sefydlu ac mae'n arwain y gwaith o sicrhau bod pobl sydd â chysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn cael y cyfle i gyd-gynhyrchu eu cynllun diogelwch eu hunain. | GWYRDD | Trefnu adolygiad ar y cyd o amcanion y Rhaglen Diogelwch Cleifion ac SSHP er mwyn cynllunio ar gyfer 2026-27.<br>Ymestyn y ffocws i gynnwys diogelwch cymunedol. |
| | Adolygu'r model cyfredol ar gyfer cymorth mewn argyfwng ledled Cymru, gan gynnwys cwmpasu ymyriadau presennol a mynediad at gymorth ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niweidio. | Diwedd blwyddyn un. | Mae model wedi'i ddyfeisio ar y cyd â Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, yr heddlu a phobl sydd â phrofiad bywyd drwy gyfres o weithdai cynllunio. Mae'r amlinelliad wedi'i rannu â phartneriaid. | OREN | Mae'r model amlinellol wedi cael ei rannu â Rheolwr Gyfarwyddwr Perfformiad a Gwella'r GIG (gan ganolbwyntio'n benodol ar fodel gwely). Gwaith pellach ar y cam gweithredu wedi'i gynllunio gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid, gan ddechrau yn 2026-27 Bl2. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yn achos pobl sy'n ymgyflwyno fel rhai sy'n synio am hunanladdiad a hunan-niweidio neu sy'n ceisio cymorth ar gyfer meddyliau o'r fath, gwella mynediad at wasanaethau ledled Cymru a gwella'r modd y darperir y gwasanaethau hynny. (Parhad)** | Sicrhau bod cymorth ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn cael ei gynnwys yn arlwy'r therapïau siarad. | Diwedd blwyddyn un. | Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghynllun gwaith Bwrdd y Rhaglen Ymyriadau Seicolegol, gan gynnwys canolbwyntio ar ehangu mynediad at ymyriadau seicolegol digidol dan arweiniad ar gyfer unigolion sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio.<br><br>Mae mynediad at Therapïau Seicolegol wedi'i gynnwys yn y Datganiad Ansawdd Hunan-niweidio. | GWYRDD | |
| | Cydweithredu ar y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | Diwedd blwyddyn un. | Roedd cydweithwyr polisi hunanladdiad a hunan-niweidio yn rhanddeiliaid mewn cyfres o ddigwyddiadau ar ffurf gweithdy a oedd yn archwilio sut i ymgorffori profiad bywyd yn y gweithlu iechyd meddwl. | | Bydd y cydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ar flaenoriaethau Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r cymorth a gynigir oddi mewn i wasanaethau eraill, gan gynnwys iechyd meddwl gofal sylfaenol, gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector.** | Mapio'r gwasanaethau presennol sydd ar gael ar gyfer synio am hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru. | Diwedd blwyddyn un. | Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau ac felly ni fydd yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn un. Mae Rheolwr Prosiect newydd wedi'i benodi i arwain y gwaith hwn a bydd yn arwain ar fapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. | COCH | Bydd Llywodraeth Cymru ac SSHP oddi mewn i Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn cyfarfod ac yn egluro'r cwmpas. |
| | Gwella ein dealltwriaeth a'r modd y byddwn yn cyfleu anghenion y rhai sydd eisiau derbyn gwasanaethau cymorth hunanladdiad a hunan-niweidio, yn ogystal ag anghenion y gweithlu sy'n darparu'r gwasanaethau hynny. | Parhaus. | Mae hysbyseb wedi'i rhannu ar gyfer Cofrestrydd Iechyd y Cyhoedd i gynnal Asesiad Anghenion Iechyd o ran hunan-niweidio.<br><br>Mae SSHP oddi mewn i Berfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cysylltu â'r tîm sy'n darparu cymorth ymateb cyflym ar gyfer digwyddiadau hunanladdiad, yn ogystal â'r tîm diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn gwella dealltwriaeth o lefel y trawma dirprwyol y mae staff yn ei ddioddef. | GWYRDD | Nodi angen mewn perthynas â thrawma dirprwyol. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r cymorth a gynigir oddi mewn i wasanaethau eraill, gan gynnwys iechyd meddwl gofal sylfaenol, gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector. (Parhad)** | Parhau i ddatblygu'r Platfform Digidol dwyieithog er mwyn cynorthwyo gweithwyr rheng flaen ledled Cymru, ynghyd â'r cyhoedd, drwy brosesau cyd-gynhyrchu a chydweithredu. | Parhaus. | Mae'r Hwb Digidol Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu, ehangu ac ennill ei blwyf ar draws sectorau Croeso i Hwb Hyfforddi Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru. | GWYRDD | Adolygu'r holl gynnwys yng nghyd-destun Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025 a'r setiau data diweddaraf. |
| | Mynd at i hyrwyddo'r modiwlau ymwybyddiaeth sylfaenol dwyieithog o hunanladdiad a hunan-niweidio ym meysydd iechyd meddwl gofal sylfaenol, gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector. | Diwedd blwyddyn un. | Cynyddu ymgysylltiad â grwpiau a lleoliadau Gofal Sylfaenol cenedlaethol wrth baratoi ar gyfer y Pecyn Cymorth Gofal Sylfaenol, gan gynnwys hyrwyddo'r Modiwl Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Hunanladdiad. | OREN | Ymgyrch ragweithiol ar hyrwyddo modiwlau Ymwybyddiaeth Sylfaenol ar ôl eu hadnewyddu. |
| | Darparu hyfforddiant 'pwrpasol' sydd wedi'i achredu'n genedlaethol. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae unedau achrededig AGORED sy'n canolbwyntio ar ymateb i bobl sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad neu hunanladdiad tybiedig wedi'u datblygu, ochr yn ochr ag uned hyfforddi'r hyfforddwr er mwyn helpu i raeadru hyfforddiant. Mae'r unedau wedi cael eu darparu i dros 50 o hyfforddwyr gweithredol ledled Cymru. | GWYRDD | Cefnogi'r broses o gael y bobl sy'n hyfforddi i gyflwyno'r unedau hyn ymhob sector yng Nghymru. |
| | Cydgynhyrchu 'pecyn cymorth' ar gyfer y sector Gofal Sylfaenol. | Diwedd blwyddyn dau. | Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu sydd â chynrychiolaeth amlddisgyblaethol. | GWYRDD | Sefydlu elfennau allweddol y 'pecyn cymorth' a'i ddatblygu dros y 12 mis nesaf, gan ymgorffori gweithgarwch ar lefelau gweithiwr unigol, ymarfer a chlwstwr. Nodi ble i gynnal elfennau gwahanol. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r cymorth a gynigir oddi mewn i wasanaethau eraill, gan gynnwys iechyd meddwl gofal sylfaenol, gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gwasanaethau'r trydydd sector. (Parhad)** | Cynorthwyo gwaith dysgu ar lefel israddedig/cyn cofrestru ym meysydd hunan-niweidio a hunanladdiad mewn rhaglenni hyfforddi iechyd a gofal. | Diwedd blwyddyn dau. | Mae dogfen gynhwysfawr sy'n amlinellu'r deilliannau dysgu a ddatblygwyd gyda Sgiliau Iechyd ar gael ar-lein: Dysgu ar gyfer myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol israddedig, cyn-gofrestru a chyn-gymhwyso yng Nghymru – SSHP. | GWYRDD | Adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl gydnaws â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025.<br>Cysylltu ag AaGIC sy'n comisiynu rhaglenni israddedig ledled Cymru.<br>Arweinwyr Rhanbarthol yn y tîm SSHP i ddefnyddio rhaglenni cyflwyno addysg uwch er mwyn helpu gyda mabwysiadu'r deilliannau dysgu. |
| **Creu llwybr ar gyfer hunan-niweidio.** | Creu datganiad ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer hunan-niweidio, a ddatblygir drwy gydweithredu a chydgynhyrchu. | Diwedd blwyddyn un. | Datganiad ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer hunan-niweidio wedi'i gydgynhyrchu a'i gyhoeddi ar wefan LLYW.CYMRU. Y Datganiad Ansawdd ar Hunan-niweidio \| LLYW. CYMRU | GWYRDD | Rhannu'r datganiad ansawdd â rhanddeiliaid. |
| | Llunio Llwybr ar gyfer ymateb i hunan-niweidio mewn Gofal Sylfaenol. | Diwedd blwyddyn un. | Mae Llwybr Drafft wedi'i greu gyda'r tîm Llwybrau Iechyd Cymunedol cenedlaethol ac arbenigwyr pwnc. | OREN | Bydd y tîm SSHP yn ymgynghori ar y Llwybr drafft gyda phobl sydd â phrofiad bywyd ac ymarferwyr.<br>Bydd y drafft yn cael ei gwblhau a'i lanlwytho. |
| **Creu llwybr ar gyfer hunan-niweidio. (Parhad)** | Gweithio gydag asiantaethau allweddol sydd eisoes yn ymateb i achosion o ymgais i gyflawni hunanladdiad er mwyn nodi anghenion ac ategu'r gwaith parhaus o lunio a datblygu systemau monitro ac ymateb. | Diwedd blwyddyn tri. | Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto. | OREN | Mae Arweinwyr Rhanbarthol oddi mewn i'r tîm SSHP yn archwilio gweithgarwch presennol lle gwyddys bod pobl sy'n ceisio cyflawni hunanladdiad yn ymgyflwyno. Mae mesurau yn cael eu rhoi ar waith i'w cefnogi. |

## Amcan 5: Galluogi

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella dealltwriaeth o'r ddarpariaeth gyfredol mewn gwasanaethau cymorth eraill a nodi unrhyw fylchau yn y cymorth.** | Mapio gwasanaethau lle gall pobl â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd ymgyflwyno yng Nghymru. | Diwedd blwyddyn un. | Mewn cydweithrediad â Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Perfformiad a Gwella GIG Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolygon sylfaenol yn y sectorau camddefnyddio sylweddau a VAWDASV er mwyn gwella dealltwriaeth o wybodaeth a darpariaeth hyfforddiant yn y sectorau hyn sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl mawr o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio.<br><br>Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid am y canfyddiadau wedi'u cynnal yn y sector defnyddio sylweddau, ac mae ymatebion VAWDASV yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. | OREN | Bydd y gwaith yn parhau ym mlwyddyn dau, gan ganolbwyntio ar arolwg y sector cymorth diweithdra a chwmpasu gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl mawr o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio a phobl sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd.<br><br>Y camau nesaf ar gyfer y sector camddefnyddio sylweddau – cynnal arolwg ehangach gan gynnwys cymorth gan y trydydd sector er mwyn deall anghenion hyfforddiant yn fanylach.<br><br>Y camau nesaf ar gyfer y sector VAWDASV – dadansoddiad manylach o ganlyniadau'r arolwg ac ystyried cynnal gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid.<br><br>Bydd y camau nesaf yn cael eu llywio gan ganlyniad yr Asesiad Anghenion Iechyd o ran Hunan-niweidio. |
| | Cynyddu ein dealltwriaeth o gymhlethdod anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chyfleu hynny'n well, ynghyd â'r hyn y mae angen ei roi ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. | Diwedd blwyddyn un. | Wrthi'n ymgysylltu ag ystod o weithluoedd sy'n ymwneud â ffactorau cysylltiedig a amlygwyd yn y sylfaen data a thystiolaeth e.e. cam-drin domestig, defnyddio sylweddau, cyfiawnder troseddol, grwpiau iechyd meddwl dynion, plant a phobl ifanc. | OREN | Mae'r gwaith yn cael ei lywio gan ganlyniad yr Asesiad Anghenion Iechyd o ran Hunan-niweidio. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r arlwy sydd ar gael.** | Cyfeirio gwasanaethau at yr adnoddau sydd ar gael er mwyn gwella dealltwriaeth a sgiliau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:<br>• Sicrhau bod y modiwlau ymwybyddiaeth sylfaenol o Hunanladdiad a Hunan-niweidio ar gael ac yn cael eu hyrwyddo. | Parhaus. | Cwblhau'r broses o ddiweddaru a lanlwytho modiwlau Ymwybyddiaeth Sylfaenol.<br>Mae trwyddedau ar gyfer e-fodiwl 90 munud START Living Works yn ymwneud ag ymyraethau hunanladdiad wedi'u caffael ac yn cael eu dosbarthu i weithluoedd rheng flaen ar draws y sectorau. | GWYRDD | Hyrwyddo'r e-fodiwlau mewn ffordd ragweithiol er mwyn ysgogi defnydd drwy gydol y flwyddyn.<br>Gwerthuso'r modiwl Living Works gyda'r nod o sicrhau ei fod ar gael yn ehangach neu ei gynnwys mewn rhaglenni datblygu'r gweithlu aml-foddol. |
| | • Sicrhau bod gweithwyr rheng flaen ym mhob sector (e.e. awdurdodau lleol, tai, yr Adran Gwaith a Phensiynau, athrawon) yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunanladdiad ac atal hunanladdiad er mwyn datblygu sgiliau gwrando gweithredol a sgiliau siarad am hunanladdiad, er mwyn iddynt gynnal sgyrsiau effeithiol a thosturiol. | | | GWYRDD | |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r arlwy sydd ar gael. (Parhad)** | Sicrhau bod y fframwaith "Trin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau" sy'n cyd-ddigwydd yn ystyried atal hunanladdiad, hunan-niweidio a mathau eraill o ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd, yn ogystal â chwmpasu'r cymorth sydd ar gael i bobl sydd wedi'u heffeithio gan alcohol neu gyffuriau. | Parhaus. | Mae cyllid yn parhau i gael ei ddarparu drwy'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal, sy'n comisiynu gwasanaethau lleol. Byrddau Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol am drefniadau comisiynu ac maen nhw'n cael eu monitro gan swyddogion.<br><br>Mae Adolygiad y Cyd-bwyllgor Comisiynu o Gamddefnyddio Sylweddau wedi darparu nifer o adroddiadau a fydd yn helpu i lywio'r gwaith a gaiff ei ddatblygu ymhellach. Er enghraifft, mewn meysydd fel Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol ac Anghenion Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd. | OREN | Bydd y gwaith o fonitro'r Byrddau Cynllunio Ardal yn parhau, gan gynnwys ymgysylltu â'r byrddau ynghylch y trefniadau comisiynu ac ystyried a ellid safoni rhai elfennau o'r trefniadau hynny, gan rannu a defnyddio'r hyn a ddysgir ar draws y byrddau.<br><br>Bydd meysydd ffocws polisi yn cynnwys gwaith ar broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol, Cetamin a Buvidal. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn teimlo bod y gallu ganddynt i'w cefnogi â syniadaeth ac ymddygiadau yn ymwneud â hunan-niweidio a hunanladdiad.** | Sicrhau bod prosesau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio, ynghyd â phrosesau diogelu ac uwchgyfeirio, yn cael eu cynnwys ym Manyleb Gwasanaeth/Pecyn Cymorth CAMHS. | Parhaus. | Mae adran ar wahân ac ychwanegol yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio wedi'i hatodi i fanyleb CAMHS. | OREN | Bydd SSHP yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio Gweithdrefnau Diogelu i sicrhau bod cyfeiriad cyson yn cael ei wneud at hunanladdiad a hunan-niweidio mewn gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion, cyn datblygu Canllawiau Ymarfer sy'n mynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio yn benodol. |
| | Cwmpasu'r potensial i gydweithredu er mwyn datblygu adnoddau ar gyfer ymarferwyr addysg yn ymwneud â chymorth iddyn nhw eu hunain ym meysydd hunanladdiad a hunan-niweidio ac ymwybyddiaeth o drawma dirprwyol. | Diwedd blwyddyn un. | Cynhaliwyd trafodaethau cwmpasu ynghylch y ddarpariaeth bresennol. | OREN | Gwaith parhaus i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio a thrawma dirprwyol. |
| | Cynorthwyo pobl sy'n ymateb i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan hunan-niweidio a hunanladdiad drwy asesu anghenion dysgu a chymorth, a datblygu polisïau, protocolau ac adnoddau drwy gydlunio a chydweithio. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae tîm Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn parhau i hwyluso a chefnogi Cymunedau Ymarfer mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Cholegau Addysg Bellach (dan arweiniad y sector).<br><br>Hefyd, mae gwaith yn parhau i gynnwys cyfeiriadau at hunanladdiad a hunan-niweidio mewn manylebau a gweithdrefnau cenedlaethol (e.e. CAMHS, Diogelu). | GWYRDD | Mae ffrydiau gwaith yn parhau i gysylltu â gwasanaeth mewngymorth Ysgolion CAMHS, Unedau Cyfeirio Disgyblion, a gwasanaethau Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn teimlo bod y gallu ganddynt i'w cefnogi â syniadaeth ac ymddygiadau yn ymwneud â hunan-niweidio a hunanladdiad. (Parhad)** | | | Mae tîm Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Perfformiad a Gwella GIG Cymru, ochr yn ochr ag arbenigwyr pwnc, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid a sectorau allweddol ar ein canllawiau '*Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc*'.<br>Mae tîm y Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yn parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n cefnogi'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed. | GWYRDD | Mae tîm y Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (Perfformiad a Gwella GIG Cymru) yn gweithio gydag arbenigwyr pwnc i greu argymhellion allweddol yn ymwneud â diweddariadau a gwelliannau i'r canllawiau '*Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc*' er mwyn adlewyrchu'n well gweithdrefnau diogelu a sicrhau eu bod yn cael eu hyrwyddo a'u bod yn addas i'r diben ar gyfer pobl sy'n gweithio y tu allan i addysg, yn ogystal ag oddi mewn i'r sector.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl derbyn yr argymhellion hyn o fewn y misoedd nesaf a bydd yn ystyried unrhyw ddiwygiadau i'r canllawiau. |
| | Gweithio gydag arbenigwyr diogelwch ar-lein i ddarparu adnoddau ar gyfer Hwb er mwyn helpu ymarferwyr addysg a theuluoedd i drafod cynnwys ar-lein niweidiol gyda phlant a phobl ifanc a nodi gwasanaethau cymorth ac adrodd. | Diwedd blwyddyn tri. | Mae'r Timau Polisi Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a Gwydnwch Digidol yn Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar y cyd er mwyn deall y cynnwys ar-lein niweidiol diweddaraf ac ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. | GWYRDD | |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Creu dulliau amlasiantaeth.** | Datblygu a chefnogi mecanweithiau partneriaeth amlasiantaeth rhanbarthol. | Parhaus. | Mae gwaith cwmpasu wedi'i wneud ynghylch sut y gellir cryfhau a chefnogi partneriaethau amlasiantaeth rhwng Byrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | GWYRDD | Mae Partneriaethau Amlasiantaeth ar batrwm daearyddol Byrddau Iechyd/Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cryfhau a'u cefnogi.<br>Bydd Fforymau Rhanbarthol yn cael eu mireinio a bydd eu pwyslais yn newid er mwyn adlewyrchu Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2025, gan gyhoeddi Proffiliau Rhanbarthol a lleihau nifer y cyfarfodydd (ddwywaith y flwyddyn) o ganlyniad i gryfhau Partneriaethau Byrddau Iechyd/ Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. |
| | Cynnwys cynrychiolydd o Dîm y Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yng ngrŵp llywio cenedlaethol rhaglen NYTH a chynnwys atal hunanladdiad a hunan-niweidio wrth roi rhaglen NYTH ar waith. | Diwedd blwyddyn un. | Mae Rhaglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Perfformiad a Gwella GIG Cymru bellach yn cael ei chynrychioli yng Ngrŵp Llywio Cenedlaethol NYTH. | GWYRDD | Cwblhawyd. |

## Amcan 6: Ymatab

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod cymorth amserol, tosturiol sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael i'r rhai y mae hunanladdiad yn effeithio arnynt.** | Gwerthuso effaith yr ymateb cenedlaethol i bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad. | Diwedd blwyddyn dau. | Mae manyleb y tendr wedi'i chyhoeddi ac mae cynigion wedi'u derbyn a'u hadolygu. Mae'r gwerthuswr wedi'i gadarnhau ac mae'r broses gaffael yn symud ymlaen tuag at drefnu dyddiad cychwyn. | GWYRDD | Ymgysylltu â'r darparwr i greu cynlluniau gwaith ar gyfer y flwyddyn 2026-27. |
| | Archwilio a oes angen rhagor o ddarpariaeth o dan y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol ar gyfer agweddau megis bod yn ystyriol o drawma, hygyrchedd a darpariaeth iaith. | Diwedd blwyddyn dau. | Mae newidiadau wedi'u gwneud i ddarpariaeth y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y gwasanaeth ac anghenion y boblogaeth. | OREN | Parhau i ymgorffori'r newidiadau i wasanaethau, gan adolygu a gwerthuso'r broses o gyflwyno newidiadau ac ystyried eu heffaith. |
| | Creu llyfryn gwybodaeth a chymorth cryno "Beth sy'n Digwydd Nesaf?" yn unol ag adborth gan y rhai sydd â phrofiad bywyd. | Diwedd blwyddyn un. | Mae fersiwn print dwyieithog o "Beth Sy'n Digwydd Nesaf" wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid a phobl sydd â phrofiad bywyd.<br>Bydd y llyfryn yn cael ei argraffu yn haf 2026. | OREN | Bydd y llyfryn yn cael ei ddosbarthu i asiantaethau pwynt cyswllt ac asiantaethau cymorth trydydd sector, gan gynnwys yr heddlu, swyddfeydd crwner, marwdai, trefnwyr angladdau, gwasanaethau profedigaeth. |

| Ein nod | Sut y byddwn yn gwneud hyn? | Erbyn pryd y byddwn yn gwneud hyn? | Cynnydd | Sgôr RAG | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu ymatebion cyson, cydgysylltiedig a chyflym yn dilyn hunanladdiad.** | Datblygu a chynnal protocolau cenedlaethol ar gyfer ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau hunanladdiad. | Diwedd blwyddyn un. | Mae fersiwn drafft wedi'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori, ac mae cydweithwyr polisi wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau. | OREN | Bydd SSHP yn adolygu ymatebion, yn diweddaru dogfennau ac yn cysylltu â chydweithwyr polisi atal hunanladdiad a hunan-niweidio Llywodraeth Cymru i drafod cyhoeddi fersiwn digidol. |
| | Datblygu a chynnal protocolau cenedlaethol ar gyfer ymatebion clwstwr. | Diwedd blwyddyn un. | Mae fersiwn drafft wedi'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori, ac mae cydweithwyr polisi wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau. | OREN | Bydd SSHP yn adolygu ymatebion, yn diweddaru dogfennau ac yn cysylltu â chydweithwyr polisi atal hunanladdiad a hunan-niweidio Llywodraeth Cymru i drafod cyhoeddi fersiwn digidol. |
| | Gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ar ddarparwyr ar-lein i gadw gwybodaeth yn ymwneud â marwolaeth plentyn drwy hunanladdiad neu achosion o hunan-niweidio. | Parhaus. | Cyflwynwyd Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 ar 23 Hydref 2024 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin 2025.<br><br>Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol gadw gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad gan grwner i farwolaeth plentyn, gan gynnwys achosion tybiedig o farw drwy hunanladdiad.<br><br>O 30 Medi 2025 ymlaen, os yw crwner yn darparu gwybodaeth benodol i Ofcom am farwolaeth plentyn, mae dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi Hysbysiad Diogelu Data i'r gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol. | OREN | Parhau i gyfrannu at ddatblygu fframweithiau monitro a gorfodi Ofcom fel y Rheoleiddiwr penodedig. |